Cyngor Cymuned Pentir

Cynhelir cyfarfod o'r Is Bwyllgor Cyllid am 7.00pm nos Fercher 1af o Rhagfyr 2021 yn y Ganolfan Gymunedol Penrhos

Agenda

1. Presennol

2. Ymddiheuriadau

3. Cod Ymddygiad

4. Cofnodion Cyfarfod diwethaf 27-10-2021

5. Materion yn codi o'r cofnodion

6. Adroddiad Ariannol

7. Archwylio Allannol

8. Taliadau angen sylw
    a. D W Lewis Torri gwair Tachwedd £ 295.00
    b. Neuadd Rhiwlas Storio offer £240.00
    c. HMRC Tachwedd £ 150.00
    d. Cyflog Tachwedd £ 599.84
    e. Torri Gwair Llwybrau Pentir £970.00
    f. Garddio ½ Blwyddyn £600.00

    Tal i mewn £250 Angladd J Turner

9. Ceisiadau Nawdd Papur Bro Goriad

10. Prosiectau
    a. Prosiect Ysgol Y Faenol
    b. Logo newydd
    c. Septic Tanc Glasinfryn
    d. Cerrig beddi wedi eu difrodi
    e. Llwyrbau Pentir a Lon Plas Amcanbris

11. I'w trafod hefyd
    - Cynllun Busnas

Cofnodion Cyngor Cymuned Pentir

Cyfarfod Rhithiol o'r Is Bwyllgor Cyllid am 6.30pm nos Fercher 27ain o Hydref 2021

1. Presennol Cyng L A James – Cadeirydd, Cyng B Jones, Cyng D Jones-Morris a'r Cyng D W Jones gyda Cyng J Lewis Cyng E Jones;a Cyng M Baines yn bresennol am yr rhan gyntaf o'r cyfarfod i drafod LleNi 2035 hefo Mr D E Jones Swyddog Adfywio Ardal Bangor/Ogwen
   Clerc E Jones
2. Ymddiheuriadau Cyng M Lynch; Cyng J Pierce a'r Cyng J Griffiths
3. Trafodaeth gyda Swyddog Adfywio Gwynedd Ymgynghori Fframwaith Adfywio Lle ni 2035 ag opsiynau ymgymeryd a chaeau chwarae Cyngor Gwynedd *Ymgynghori Fframwaith adfywio*
   Amlinnellodd DEJ gefndir i'r ymgynghoriad ynghyd a diffiniad o'r 'Ardal' fel Dinas Bangor, Ward Pentir a Ward Felinheli. Esboniodd byddai 3 cam i'r broses ag mae rhan 1 yn unig oedd y cam yma i ddarganfod barn y cymunedau cyn symud i Rhan 2 fyddai yn adnabod cynlluniau ag edrych ar ffyrdd i'w ariannu ag yna gweithredu ar y cynlluniau hynny
   - Bu cryn drafodaeth ar ffyrdd i wella delwedd yr ardal yn gyffredinnol yn enwedig Stryd Fawr Bangor
   - Edrych os oes modd addasu adeiladau/tai gwag yn hytrach na adeiladu ar y cyrion ar dir glas
   - Angen sefydlu canolfan iechyd ganolog a chefnogi mwy Ysbyty Gwynedd yn well
   - Angen i ddenu Gwaith i'r ardal. – Parc Bryn Cegin heb ei ddatblygu a llawer o lefydd gwag ar Parc Menai a Stad ddiwydiannol Llandegai
   - Problemau trafnidiaeth yn broblem fawr yn enwedig ar Ffordd Penrhos ○ yn sgil hynny problemau parcio.
   - Prinder llefydd addas i feicio a cherdded ag angen

   Ymddangosai fod mwy o bryderon na chymeradwyon ond mi gafodd yr elfen 'ieithyddol gymraeg' yn ardal Pentir/Penrhos ei glodfori a'r dyhead i hynny barhau er gwaetha bygythiada o'r ochr tai 'Buy to let'
   Opsiynau ymgymeryd a chaeau chwarae Cyngor Gwynedd
   'Roedd llythyr wedi ei dderbyn cyn y Pandemig yn gwahodd Cynghorau Cymuned i gymeryd cyfrifoldeb o gaeau chwarae oedd bryd hynny yn cael eu rheoli gan Cyngor Gwynedd. Tra bod Cyngor Pentir wedi datgan cefnogaeth, mewn egwyddor, i'r syniad ychydig iawn oedd wedi datblygu ers hynny.
   Awgrymodd DEJ ein bod yn ail-gysylltu drwy e-bost a Llion Foulkes yn Cyngor Gwynedd i holi am opsiynau oedd i'w ystyried a'i gopio yntau i mewn yn yr e-bost
   Gadawodd Mr D E Jones a'r Cyng E Jones J Lewis a M Baines y cyfarfod am 7.30
4. Cod Ymddygiad
   Atgoffa pawb o'r Cod ymddygiad

   Cyng L A James yn aelod ar bwyllgor Canolfan Penrhos

5. Cofnodion Cyfarfod diwethaf 29-09-2021
   Cyng D Jones Morris yn cynnig a'r Cyng D W Jones yn eilio eu bod yn gofnodion cywir
6. Materion yn codi o'r cofnodion
   Dim nad oedd wedi ei gynnays o fewn yr Agenda
7. Adroddiad Ariannol
   Mantolen ariannol wedi ei rhannu yn electronig ag yn dangos £49,909.43 yn y cyfrif cyfredol a £35,039.39 yn y cyfrif cadw yn dilyn derbyn £0.88 o log Derbynwyd y cyfrifon
8. Archwylio Allannol
   Adroddiad derfynnol byth wedi cyrraedd ond hysbyseb ar ein gwefan yn esbonio hynny
9. Taliadau angen sylw
   Argymell fod y Cyngor Llawn yn cymeradwyo talu'r cyfan oedd gerbron a chydnabod taliad o £200.00 am angladd

10. Ceisiadau Nawdd Dim un Newydd on manoilen ariannol gyfredol Llais Ogwan wedi cyrraedd heddiw

11. Prosiectau
    - Prosiect Ysgol Y Faenol Cyfarfod safle dal heb ddigwydd **Clerc i ddyfalbarhau i drefnu** Logo Newydd Dim diweddariad
    - Septic Tanc Glasinfryn Dwr Cymru wedi trefnu archwyliad o'r sustem 19/10/21 ond dim manylion pellach onibai am gerdyn galw
    - Cerrig beddi wedi eu difrodi Adroddwyd fod dwy garreg fedd wedi eu difrodi yn ystod y misoedd dwaetha a fod yna hefyd garreg arall wedi ei difrodi amser oedd i llwybrau yn cael eu tarmacio (dim gan y contractwyr hynny)

      Nid yw'n hawdd adnabod pwy yn union sydd yn gyfrifol am y difrod ond y tebygolrwydd yw eu bod wedi eu torri'n ddamweiniol ond nad oedd neb wedi cydnabod y difrod

      Clerc i anfon at yr holl ymgymerwyr iddynt rybuddio'r agorwyr beddi y byddwn yn edrych mwy manwl o hyn ymlaen

      Clerc hefyd i holi am brisiau adnewyddu i weld os oes angen hawlio iawndal Yswiriant

12. <u>I'w trafod hefyd</u>
    - Asesu Risg Dim i adrodd yn ol ond atgoffa **aelodau o'r Cyngor Llawn fod rhai wedi addo edrych ar ffyrdd i lleihau risgiau oedd wedi eu adnabod ag edrych ar ein polisiau**
    - Cynllun Busnas Oherwydd i'r criw fethu a chyfarfod yn ystod Hydref cytunwyd i ail-drefnu ar gyfer **Nos Fercher 01-12-21 yn y ganolfan gymunedol Penrhos**